# Rhaglen Adloniant

# Marchnad Nadolig Ystrad Mynach - Dydd Sadwrn 15 Tachwedd 2025

| Amser | Perfformiwr |
|---|---|
| Drwy'r dydd | Adar ysglyfaethus |
| Drwy'r dydd | Ffair hwyl |
| Drwy'r dydd | Stondinau |
| Drwy'r dydd | Peintio Wynebau - Glitter Girls |
| 9.30am–1.00pm | Gweithgareddau Llyfrgell Ystrad Mynach |
| 10.00am–4.00pm | Gweithdai Crefft Creu a Chymryd |
| 10.00am – 1.00pm a 2.00pm – 4.40pm | Ogof Siôn Corn Cyngor Cymuned Gelligaer |
| 10.00am – 5.00pm | Ardal Perfformiadau Cerddoriaeth |
| 11.00am | Winterlings |
| 11.30am | Elfiss and Pressie |
| 12.00pm | Scallywags |
| 12.30pm | Winterlings |
| 1.00pm | Scallywags |
| 1.30pm | Elfiss and Pressie |
| 2.00pm | Two Wise Men |
| 2.30pm | Winterlings |
| 3.00pm | Elfiss and Pressie |
| 3.30pm | Two Wise Men |
| 5.00pm | Seremoni Cynnau'r Goleuadau Blynyddol Cyngor Cymuned Gelligaer |

***Gall y rhaglen hon newid**

# Rhagor o wybodaeth am yr adloniant!

## Ogof Siôn Corn Cyngor Cymuned Gelligaer



Mae Ogof Siôn Corn Cyngor Cymuned Gelligaer yn dychwelyd! Dydy Siôn Corn ddim yn gallu aros i gwrdd â'r holl blant cyffrous gyda'u rhestrau dymuniadau! Amser arbennig i blant ac oedolion weld y llawenydd y gall dathliadau'r Nadolig ei gynnig. Am ffi o £1.00 y plentyn, bydd Siôn Corn yn cwrdd â'r plant, eu cyfarch nhw ac yn cynnig anrheg fach. Wedi'i leoli yn Eglwys Siloh.

**Facebook: Gelligaer Community Council**

## Ardal Perfformiadau Cerddoriaeth



Bydd ardal berfformio yn cael ei chreu yn Sgwâr Siloh i gorau cymunedol lleol, cantorion, grwpiau ac ysgolion berfformio. Detholiad gwych o berfformiadau i annog pawb deimlo hwyl yr ŵyl.

**Facebook: Visit Caerphilly**

## Stondinau Bwyd, Crefft a Gwybodaeth



Bydd dros 35 o fasnachwyr sy'n gwerthu bwyd blasus a chrefftau unigryw, ynghyd ag ambell stondin wybodaeth, wedi'u lleoli ledled canol y dref. Mwynhewch gacennau blasus a chael blas o ddiod neu ddwy gan y

## Gweithgareddau Llyfrgell Ystrad Mynach




gwerthwyr gwirodydd, cwrw a seidr. Codwch anrhegion crefft unigryw i deulu a ffrindiau neu beth am rywbeth i chi'ch hun!?

**Facebook: Visit Caerphilly**

Beth am ddod draw i'r llyfrgell ar ddiwrnod y digwyddiad! Bydd Knit and Natter ar y safle yn gwerthu eitemau ar gyfer elusen. Bydd crefftau i'r plant hefyd.

**Facebook: Gwasanaeth Llyfrgell Caerffili - Caerphilly Library Service**

**<u>Falconry UK</u>**



Bydd adar ysglyfaethus yn cael eu harddangos er mwyn i ymwelwyr edrych arnyn nhw, cael ffotograffau gyda nhw, a dysgu ffeithiau ac am gefndir hynod ddiddorol y creaduriaid rhyfeddol hyn.

**Facebook: Falconry UK**

**<u>Glitter Girls</u>**

Trawsnewidiwch yn dywysog, tywysoges, archarwr neu anifail. Mae gan Glitter Girls y ddawn hudol i'ch trawsnewid chi i edrych fel eich hoff gymeriad, gan ychwanegu lliw a gliter i wneud i chi ddisgleirio! Yn ogystal â tatŵs glitter, plethi gwallt a gemau'r wyneb!

**Facebook: Glitter Girls**

**Gweithdai Crefft Creu a Chymryd**



**<u>Scally Wags</u>**



Oes gennych chi swllt, syr? Ffyrling? Ceiniog, felly, syr? Beth am wên, syr? Mae'r Rapsgaliwns Fictoraidd yn gwpl o fois sy'n breuddwydio am fywyd

<table>
<tr>
<td>Dewch draw i greu gwaith crefft Nadoligaidd a'i gymryd adref i'w arddangos dros gyfnod yr ŵyl. Mae'r gweithdy hwn yn rhoi cyfle i blant fod yn greadigol a chael ychydig o hwyl!<br><br>Facebook: Creative Workshops for Children</td>
<td>moethus. Gyda'u natur fywiog, ddigywilydd, byddan nhw'n codi'ch calon, eich swyno i gael cusan neu'n mynd â chi am dro i lawr y stryd. Gwell i chi gadw golwg ar eich eiddo a'ch gwraig!<br><br>Facebook: Digging holes street theatre entertainment</td>
</tr>
<tr>
<td><u>Winterlings</u><br><br><br><br>Mae'r ddau byped Nadolig hudolus hyn yn pelydru hwyl yr ŵyl gyda'u gwisgoedd coch a gwyrdd a'u goleuadau disglair! Ar ffurf coed bytholwyrdd bach ac wedi'u gorchuddio â chymysgedd o flodau poinsettia llachar a goleuadau ffeibr optig, maen nhw’n ddiddanwyr Nadolig unigryw sy'n fwrlwm o fywyd. Gyda phersonoliaethau mawr, canu carolau rhyngweithiol a llawer o hiwmor, nhw yw’r anrheg deuluol ddiderfyn.<br><br>Facebook: Joogleberry</td>
<td><u>Elfiss and Pressie</u><br><br><br><br>Mae ateb Pegwn y Gogledd i One Direction yn dod â'u fersiynau eu hunain o ganeuon nodweddiadol y Nadolig i'r digwyddiad! Gan suo ganu eu ffordd drwy'r dorf, mae'r perfformwyr diddorol hyn yn serenadu señoritas a señors gyda'u caeuon Nadoligaidd. Perfformwyr comedi cerddorol rhyngweithiol iawn sydd wedi profi'n hynod boblogaidd lle bynnag y maen nhw'n mynd. Mae'r ddeuawd yn canu caneuon Nadolig, yn ogystal â phopeth o Britney i Taylor (gydag ambell faled o'r 80au wedi’u hychwanegu at y cymysgedd er daioni)! Maen nhw’n siŵr o’u lle mai nhw yw’r sêr mawr nesaf!</td>
</tr>
<tr>
<td><u>Two Wise Men</u><br><br><br><br>Mae Ezekial a Hereclise ar goll ar eu taith i'r preseb. Maen nhw'n boenus o awyddus i ddod o hyd i arwydd – gall fod yn seren, yn stabl, yn dafarnwr, yr</td>
<td><u>Reidiau ac Atyniadau Ffair Hwyl</u><br><br></td>
</tr>
</table>

| | |
|---|---|
| Angel Gabriel, Mair neu Joseff. Maen nhw wedi colli'r dyn doeth arall ac yn ceisio llefaru doethineb i'r dorf a chynnig moliant yn gyfnewid am gymorth yn eu hymgais.<br><br>**Facebook: Digging holes street theatre entertainment** | Bydd tŷ hwyl traddodiadol, reid teganau, hoopla a waltzer bach er mwyn difyrru'r plant.<br><br>**Facebook: South Wales Fun Days** |
| **<u>Seremoni Cynnau'r Goleuadau Blynyddol Cyngor Cymuned Gelligaer</u>**<br><br> <br><br>Dewch i weld canol y dref yn disgleirio gydag amrywiaeth liwgar o oleuadau stryd Nadoligaidd wedi'u cyflwyno gan Gyngor Cymuned Gelligaer. Eleni bydd Ruby Kay yn ein canu tan y cyfrif i gynnau'r goleuadau gyda llawer o alawon a chyd-ganu Nadoligaidd!<br><br>**Facebook: Gelligaer Community Council** | |